# Cynllun Busnes
# Menter y Ring Cyfyngedig

Chwefror 2025

*“Diogelu tafarn groesawgar yng nghanol ein pentref i gysylltu pobl a dathlu diwylliant – sy’n eiddo i’r gymuned ac er budd y fro.”*




**Y cynllun busnes hwn yw sail y cynnig cyfranddaliadau y caiff aelodau’r gymuned a’r cyhoedd ehangach eu gwahodd i gymryd rhan ynddo i gefnogi Menter y Ring.**

**Mae dogfen Cynnig Cyfranddaliadau yn y Gymraeg ar wahân sydd yn darparu manylion llawn am y cynnig. Mae pob dogfen hefyd ar gael yn Saesneg.**

Gwefan: www.menteryringllanfrothen.com
E-bost: aelodaeth@menteryringllanfrothen.com
post@menteryringllanfrothen.com

# Cynnwys


*1. Crynodeb Gweithredol ........ 4*

*2. Cyflwyniad i'r Cynllun Busnes ........ 6*

2.1 Cefndir – Y Ring........ 6

2.2 Gweledigaeth ac Amcanion Menter y Ring........ 7

2.3 Pwysigrwydd Tafarndai Cymunedol ........ 8

2.4 Y Cyd-destun Ehangach ........ 9

*3. Yr Ardal ........ 11*

3.1 Ffeithiau ac Asedau........ 11

3.2 Twristiaeth ........ 12

3.3 Sylfaen Gwsmeriaid/Cynulleidfa Darged........ 14

*3.4 Y Gystadleuaeth........ 15*

*4. Cynnwys y Gymuned a Phartneriaid ........ 15*

4.1 Holiadur Cychwynnol ........ 15

4.2 Cyfarfodydd Cyhoeddus ........ 17

*5. Prynu Prydles Tafarn y Ring........ 17*

5.1 Costau ac Amserlen........ 17

5.2 Cyflwr yr Adeilad ........ 18

5.3 Uwchraddio a Datblygu'r Adeilad ........ 18

5.4 Lleihau Ein Heffaith ar yr Amgylchedd a'n Ymrwymiad i Ddatblygiad Cynaliadwy. ....... 19

*6. Y Cynnig Busnes ........ 20*

6.1 Model Busnes ........ 20

6.2 Rhagolwg Ariannol........ 21

6.3 Gweithgareddau ac Adloniant ........ 22

*7. Marchnata a Hyrwyddo ........ 23*

7.1 Y Cynnig Cyfranddaliadau........ 23

7.2 Y Busnes ........ 23

*8. Llywodraethu........ 24*

8.1 Cymdeithas Budd Cymunedol........ 24

8.2 Pwyllgor Rheoli........ 24

8.3 Grwpiau Cefnogi ........ 25

*9. Rheoli Risg........ 26*

9.1 Dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleon, Bygythiadau) ........ 26

9.2 Ymateb i'r Risgiau ........ 27

*10. Casgliadau........ 30*

*11. Atodiadau........ 30*

# 1. Crynodeb Gweithredol

**Gweledigaeth Menter Y Ring**

*"Diogelu tafarn groesawgar yng nghanol ein pentref i gysylltu pobl a dathlu diwylliant – sy'n eiddo i'r gymuned ac er budd y fro."*

**Amcanion y Fenter**

- Perchnogi prydles tafarn y Brondanw Arms (y Ring) a'i rhedeg er budd yr ardal gyfan, fel y mae hi wedi bod yn hanesyddol.
- Diogelu ffyniant y Ring yn y dyfodol trwy gymryd mantais o gyfleoedd amrywiol megis grantiau, ffrydiau incwm amrywiol a digwyddiadau codi arian.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn greiddiol i bob gwasanaeth a darpariaeth.
- Hybu diwylliant a chelfyddydau, yn arbennig cerddoriaeth fyw.
- Cefnogi'r economi leol trwy greu swyddi a blaenoriaethu'r defnydd o adnoddau, gwasanaethau a chynnyrch lleol a sicrhau fod unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gymuned.
- Sicrhau bod y Fenter yn gweithredu ar ran ac er mwyn y gymuned, heddiw ac i'r dyfodol.
- Cefnogi'r amgylchedd naturiol lle bo modd.

**Ein Gwerthoedd**

Byddwn yn:

- Gwasanaethu a gweithredu er budd plwyf Llanfrothen (Cwm Croesor a phentrefi Garreg, Rhyd a Chroesor), heddiw ac i'r dyfodol.
- Seilio popeth ar hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg.
- Cefnogi'r economi leol a chadw'r arian yn lleol.
- Cefnogi a chydweithio gyda cymdeithasau'r plwyf a'r cylch ehangach.
- Gweithredu mewn ffordd ddiwyd, tryloyw a gonest.
- Ymddwyn yn gynhwysol ac yn groesawgar i bawb.
- Gwneud ein rhan drwy amddiffyn yr amgylchedd ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Mae cymuned Llanfrothen wedi creu Cymdeithas Budd Cymunedol i brynu prydles a sefydlu tafarn y Brondanw Arms (sydd yn cael ei adnabod fel 'Y Ring' yn lleol) fel tafarn gymunedol. Mae'r Ring yn llawer mwy na tafarn, mae'n adnodd allweddol i gymuned wledig ac mae'r gymuned yn angerddol dros yr angen i ddiogelu ei dyfodol,

gan sicrhau ei bod yn gallu parhau fel curiad calon i’r gymdeithas ac yn cwrdd ag anghenion lleol.

Mae’r dafarn yn rhan ganolog o’r gymuned ers y 17eg ganrif. Mae'r dafarn yn rhan o Ystâd Brondanw, cartref pensaer pentref Eidalaidd Portmeirion, Syr Clough Williams-Ellis. Bragdy Robinsons sydd berchen prydles y dafarn – daeth penderfyniad gan Robinsons i’w roi ar werth yn 2024, gyda 56 mlynedd ar ôl ar y brydles. Mewn ymateb i’r newyddion hyn, daeth aelodau o’r gymuned at ei gilydd ym mis Medi 2024 i drafod os oedd diddordeb ceisio perchnogi’r brydles a rhedeg y dafarn fel cymuned, ac roedd penderfyniad bron yn unfrydol i fynd amdani.

Mae’r Ring yn dafarn Gymraeg eiconig ac yn ganolbwynt i gymuned Llanfrothen â’r ardal. Mae ganddi enw da fel tafarn lewyrchus a lleoliad sy’n dod â’r gymuned gyfan ynghyd o ddydd i ddydd, hyrwyddo’r iaith Gymraeg a chynnal a chefnogi cymdeithasau lu. Mae enw da’r dafarn wedi bod yn denu pobl o ardaloedd eang iawn dros y blynyddoedd.

Prif nod y Gymdeithas yw bod y Ring yn parhau i fodloni anghenion trigolion Llanfrothen a’r cyffiniau, ac yn parhau gyda’r enw da sydd yn ei gwneud yn gyrchfan i drigolion yr ardal a thu hwnt.

Y model busnes mae’r Fenter yn cysidro ar gyfer y Ring ydy’r model tenant neu hybrid tenant/rheolwr, pa bynnag un sydd yn blaenoriaethu amcanion cymunedol y dafarn tra’n lleihau’r baich ar wirfoddolwyr ac yn sicrhau gwerth am arian a dyfodol llwyddiannus i’r Ring. Mae’r gwaith ymchwil ar y mater hwn yn parhau. Mae’n galonogol nodi fod diddordeb cychwynnol yn y swydd yn barod a byddwn yn cynnal proses hysbysebu, dewis a dethol trylwyr i benodi unigolyn/ion addas. Byddwn yn blaenoriaethu amodau cymunedol yn unrhyw gytundeb er mwyn diogelu gwasanaethau allweddol a sicrhau fod y ddarpariaeth yn cyd-fynd gyda’n gweledigaeth, amcanion a’n gwerthoedd. Mae’r dadansoddiad ariannol cychwynnol yn dangos y gall y Fenter fod yn hyfyw a chynaliadwy, pe bai’n dewis model tenant neu hybrid tenant/rheolwr.

Mae’r gymuned wedi mabwysiadu model Cymdeithas Budd Cymunedol fel yr hyn sy’n cyd-fynd orau â’r ysbryd sydd tu ôl i sefydlu’r Fenter. Mabwysiadwyd Rheolau Enghreifftiol a sefydlwyd Pwyllgor Rheoli Cychwynnol. Daw rhywun yn aelod o’r Gymdeithas drwy brynu cyfranddaliad (isafswm gwariant o £100), ac mewn cyfarfodydd cyffredinol mae gan bob aelod un bleidlais. Bydd y cynnig cyfranddaliadau ar gyfer prynu prydles y Ring yn agor ym mis Mawrth 2025 am gyfnod o 4 wythnos. Rydym yn anelu i gwblhau’r broses o brynu prydles y Ring yn Ebrill 2025.

## 2. Cyflwyniad i'r Cynllun Busnes

### 2.1 Cefndir – Y Ring

Mae'r Ring yn galon cymuned Llanfrothen â'r ardal; dros y blynyddoedd mae wedi bod yn dod a'r gymuned gyfan ynghyd o ddydd i ddydd, ac yn cynnal a chefnogi grwpiau lu. Mae enw da'r dafarn dros y blynyddoedd wedi denu pobl o ardaloedd eang i fwynhau'r croeso Cymreig a Chymraeg. Mae'r dafarn yn un draddodiadol Gymreig sy'n dyddio nôl rai canrifoedd, gyda gardd gwrw, ystafell fwyta, bar gyda dewis helaeth o gwrw da a gwirodydd safonol.

Wedi mynd ati i ganfod barn y gymuned – drwy gyfarfodydd cyhoeddus a holiaduron – mae teimladau cryf yn Llanfrothen am yr angen i ddiogelu dyfodol y Ring. Mae cefnogaeth gref i'r syniad o brynu'r brydles a sefydlu'r busnes fel tafarn gymunedol, gan sicrhau fod y dafarn yn parhau fel canolbwynt cymdeithasol ac economaidd bwysig sy'n cefnogi ffyniant y gymuned i'r dyfodol. Mae'r farn hon wedi'i seilio ar y gydnabyddiaeth y byddai colli'r Ring yn ergyd aruthrol i'r ardal a bod menter gymunedol yn cynnig cyfle unigryw, yn ogystal â datgloi cyfleon yn y dyfodol i ddatblygu prosiectau pellach i ddod â budd i'r gymuned.

Mae'r farn yma hefyd wedi'i seilio ar y ffaith bod Llanfrothen yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg gyda bron 70% o'r trigolion yn siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) a bod cyfrifoldeb ar bawb i wneud popeth sy'n bosibl i greu gobaith a chyfleon ar gyfer ffyniant yr iaith i'r dyfodol. Mae sefydlu Cymdeithas Budd Cymunedol yn cael ei gweld felly fel cyfrwng i sicrhau y gallu i weithio, cael mynediad i wasanaethau, cymdeithasu ac ymgysylltu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae Cymdeithas Budd Cymunedol yn cael ei gweld yn bwysig i'r gymuned heddiw – ac yn angenrheidiol ar gyfer ein pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol.

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus ar 16fed o Fedi 2024 a chytundeb cryf i symud ymlaen gyda perchnogi prydles tafarn y Ring fel cymuned, sefydlwyd Pwyllgor Rheoli Cychwynnol a sefydlwyd Cymdeithas Budd Cymunedol, gyda'r nod o brynu prydles y dafarn a'i rhedeg fel menter gymunedol.

Hyd yma, mae'r Pwyllgor wedi:

- Sefydlu Menter Y Ring Cyfyngedig fel endid cyfreithiol (07/11/2024).
- Agor cyfrif banc (20/01/2025).
- Codi gwerth £165k mewn benthyciadau.
- Sicrhau fod y cais i brynu prydles y Ring ei dderbyn gan y gwerthwr, Robinsons.
- Datblygu logo a brand i'r Fenter a goruchwylio ymgyrch yn y wasg a dros y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o amcanion y fenter.
- Sicrhau cymorth a dealltwriaeth o ymarfer da gan Cwmpas a'r Plunkett Foundation.

- Adeiladu perthynas agos, gyda'r bwriad o ddysgu gan ymarfer da, gyda mentrau cymunedol cyffelyb megis Menter Ty'n Llan Cyf.
- Trafod gyda adrannau perthnasol Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw gefnogaeth, ariannol neu arall, sydd ar gael i'r fenter.
- Derbyn rhoddion gwerth bron i £5,000.
- Sicrhau grant Perthyn a grant Grymuso Gwynedd i helpu efo costau cyfathrebu, ffioedd trafod pryniant y brydles a datblygu'r prosiect.
- Cynnal digwyddiad cymunedol gyda dros 230 o bobl yn dathlu cerddoriaeth lleol a chodi ymwybyddiaeth o'n hymgyrch.

Ar sail yr uchod mae'r Pwyllgor Rheoli wedi datblygu'r cynllun busnes hwn sy'n cyflwyno gweledigaeth Menter y Ring a'r model ar gyfer prynu'r brydles a rhedeg y dafarn a sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r busnes. Cafodd y cynllun busnes ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli Menter y Ring ar 26/02/2025. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru gan y Pwyllgor Rheoli wrth i'r fenter ddatblygu.

## 2.2 Gweledigaeth ac Amcanion Menter y Ring

**Gweledigaeth Menter y Ring**

*"Diogelu tafarn groesawgar yng nghanol ein pentref i gysylltu pobl a dathlu diwylliant – sy'n eiddo i'r gymuned ac er budd y fro."*

**Amcanion y Fenter**

- Perchnogi prydles tafarn y Brondanw Arms (Y Ring) a'i rhedeg er budd yr ardal gyfan, fel y mae hi wedi bod yn hanesyddol.
- Diogelu ffyniant y Ring yn y dyfodol trwy gymryd mantais o gyfleoedd amrywiol megis grantiau, ffrydiau incwm amrywiol a digwyddiadau codi arian.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn greiddiol i bob gwasanaeth a darpariaeth.
- Hybu diwylliant a chelfyddydau, yn arbennig cerddoriaeth fyw.
- Cefnogi'r economi leol trwy greu swyddi a blaenoriaethu'r defnydd o adnoddau, gwasanaethau a chynnyrch lleol a sicrhau fod unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi yn y gymuned.
- Sicrhau bod y Fenter yn gweithredu ar ran ac er mwyn y gymuned, heddiw ac i'r dyfodol.
- Cefnogi'r amgylchedd naturiol lle bo modd.

**Ein Gwerthoedd**

Byddwn yn:

- Gwasanaethu a gweithredu er budd plwyf Llanfrothen (Cwm Croesor a'r pentrefi Garreg, Rhyd a Chroesor), heddiw ac i'r dyfodol.
- Seilio popeth ar hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg.
- Cefnogi'r economi leol a chadw'r arian yn lleol.
- Cefnogi a chydweithio gyda cymdeithasau'r plwyf a'r cylch ehangach.
- Gweithredu mewn ffordd ddiwyd, tryloyw a gonest.
- Ymddwyn yn gynhwysol ac yn groesawgar i bawb.
- Gwneud ein rhan drwy amddiffyn yr amgylchedd ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

## 2.3 Pwysigrwydd Tafarndai Cymunedol

Mae tafarndai cymunedol yn cynnig amrywiaeth o fuddion sy'n cyfrannu at lesiant unigolion a'r gymuned gyfan. Dyma rai o fanteision allweddol tafarndai cymunedol:

**Rhyngweithio Cymdeithasol** – Mae tafarndai cymunedol yn gweithredu fel canolfannau cymdeithasol, gan ddod â phobl at ei gilydd a meithrin ymdeimlad o berthyn. Maent yn darparu lle i ffrindiau, cymdogion, a thrigolion lleol ymgynnull, cymdeithasu a meithrin perthnasoedd. Mae'r rhyngweithio cymdeithasol hwn yn helpu i frwydro yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd, gan hybu iechyd meddwl a lles cyffredinol.

**Cydlyniant Cymunedol** – Mae tafarndai cymunedol yn aml yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cryfhau cysylltiadau cymunedol. Mae hyn yn creu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd a dathlu eu diddordebau a'u hunaniaeth leol.

**Effaith Economaidd** – Mae tafarndai cymunedol yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r economi leol. Maent yn creu cyfleoedd cyflogaeth ac yn cynhyrchu incwm i aelodau staff, cyflenwyr a chontractwyr. Yn ogystal, gall tafarndai cymunedol fod yn gatalydd i fusnesau eraill drwy ddenu cwsmeriaid ac ymwelwyr i'r ardal.

**Iaith** – Gall tafarndai cymunedol yng Nghymru chwarae rhan arwyddocaol wrth hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi ei defnydd o fewn y gymuned leol e.e. arwyddion a bwydlenni dwyieithog, digwyddiadau ac adloniant Cymraeg, dosbarthiadau neu grwpiau sgwrsio i ddysgwyr, hyrwyddo llenyddiaeth a chelfyddydau Cymraeg. Drwy fynd ati'n frwd i gofleidio a hyrwyddo'r Gymraeg, gall tafarndai cymunedol ddod yn ganolbwynt i'r gymuned Gymraeg, gan greu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, meithrin balchder yn y Gymraeg, a chyfrannu at ei pharhad a'i thwf.

**Treftadaeth Ddiwylliannol** – Mae gan lawer o dafarndai cymunedol hanes cyfoethog ac arwyddocâd diwylliannol yn eu hardaloedd. Maent yn aml yn ymgorffori ymdeimlad o draddodiad a hiraeth, gan weithredu fel cyswllt â'r gorffennol. Mae cadw a chynnal y sefydliadau hyn yn helpu i ddiogelu treftadaeth leol ac yn sicrhau y

gall cenedlaethau'r dyfodol werthfawrogi a dysgu o hanes eu cymuned. Mae tafarndai cymunedol hefyd yn fodd o hybu a dathlu cerddoriaeth Gymraeg.

**Cyfleusterau Lleol** – Mae tafarndai cymunedol yn aml yn darparu gwasanaethau y tu hwnt i weini diodydd. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau, gweithgareddau cymdeithasol neu gynnig mannau i glybiau, cymdeithasau neu grwpiau gyfarfod. Mae'r amrediad hwn yn eu gwneud yn asedau gwerthfawr i'r gymuned, gan gynnig ystod o adnoddau a gwasanaethau mewn un lleoliad.

**Cefnogaeth i Gynhyrchwyr Lleol** – Mae tafarndai cymunedol yn aml yn blaenoriaethu defnyddio cynnyrch lleol. Gallant gydweithio â bragdai, distyllfeydd a chynhyrchwyr bwyd cyfagos, gan gefnogi'r economi leol a hyrwyddo cynaliadwyedd. Gall y pwyslais hwn ar ffynonellau lleol hefyd gyfrannu at fwy o ymdeimlad o falchder a chysylltiad cymunedol.

**Mannau Diogel a Chynhwysol** – Mae tafarndai cymunedol yn ymdrechu i greu amgylcheddau croesawgar sy'n hygyrch i bob aelod o gymdeithas. Maent yn aml yn darparu ar gyfer ystod amrywiol o oedrannau, cefndiroedd a diddordebau, gan sicrhau bod pawb yn teimlo'n gyfforddus ac wedi'u cynnwys. Mae'r cynhwysiant hwn yn meithrin ymdeimlad o gydlyniant cymunedol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol.

I grynhoi, mae tafarndai cymunedol yn mynd y tu hwnt i weini diodydd ac yn gweithredu fel angorau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd pwysig yn eu cymunedau. Maent yn darparu mannau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, yn cyfrannu at economïau lleol, yn cadw treftadaeth ddiwylliannol, ac yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol, i gyd wrth gefnogi cynhyrchwyr lleol a chynnig cyfleusterau a gwasanaethau amrywiol i drigolion. Mae hyn yn bendant yn wir am y Ring ac mae'n allweddol fod y dafarn yn parhau fel canolbwynt cymunedol pwysig i'r ardal.

## 2.4 Y Cyd-destun Ehangach

Nod sylfaenol y fenter yw sicrhau adnodd cymunedol hanfodol gyda'r bwriad o gefnogi ac ysgogi ffyniant cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned. Mae'r galw am y fenter wedi dod o'r gymuned, ac mae'r dyhead i weithredu heddiw yn ogystal ag ar gyfer ein pobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol yn greiddiol bwysig. Mae Menter y Ring yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddiwallu gofynion deddfwriaeth â pholisïau yn ymwneud a datblygiad cynaliadwy; yr economi a'r economi sylfaenol; datblygiad ac adfywio cymunedol; iaith a diwylliant ar lefel lleol, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1] –** Yr angen i weithio ar y cyd ac yn gynhwysol gyda llais bwysig i gymunedau a thrigolion. Diwallu anghenion

[1] https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

heddiw heb niweidio anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Gyrru gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion.

**Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr (Llywodraeth Cymru)[2] –** Pwyslais ar bwysigrwydd cymunedau a mentrau lleol mewn cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Trawsnewid Cymru Trwy Fentrau Cymdeithasol 2020[3] –** Gweledigaeth i weld mentrau cymdeithasol fel y prif fodel busnes yng Nghymru erbyn 2030 ar gyfer diwallu anghenion ac ymateb i heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

**Mwy Nag Ailgylchu (Llywodraeth Cymru, 2021)[4] –** Strategaeth i wneud yr economi gylchol yng Nghymru yn realiti, gan wneud effeithlonrwydd adnoddau yn rhan o ddiwylliant Cymru a chydnabod bod gan y diwydiant bwyd a diod ran fawr i'w chwarae yn yr economi gylchol.

**Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru[5] –** Cydnabod rol ganolog cymunedau i ddyfodol economaidd gogledd Cymru. Ymrwymiad i ddarparu llais rhanbarthol cryfach a dull sy'n adeiladu ar gydweithrediad presennol Gogledd Cymru mewn perthynas â datblygu cymunedol ac economaidd**.**

**Cynllun Cyngor Gwynedd 2023–28[6] –** Blaenoriaethu 'Gwynedd lewyrchus' – ffyniant drwy sicrhau cefnogaeth i fusnes, cymunedau cryf a gwydn, canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.

**Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035[7]** – Cydnabod pwysigrwydd yr economi ymweld i'r ardal ac yn awyddus i sicrhau bod yr ardal a'i rhinweddau arbennig yn cael eu gwarchod a'u diogelu – fel bod yr hyn sydd mor unigryw am yr ardal yn cael eu diogelu ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri[8] –** Wrth gyflawni ei bwrpasau statudol mae'n ofynnol i'r Awdurdod geisio meithrin lles economaidd a chymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol.

---

2 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

3 https://cy.cwmpas.coop/yr-hyn-a-wnawn/polisi-chyhoeddiadau/trawsnewid-cymru-drwy-fentrau-cymdeithasol/

4 https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf

5 https://uchelgaisgogledd.cymru/media/3n5f3dn3/fframwaith-economaidd-rhanbarthol-gogledd-cymru.pdf

6 https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-y-Cyngor-2023-28.pdf

7 https://eryri.gov.wales/wp-content/uploads/2023/06/Cynllun-Strategol-Economi-Ymweld-Cynaliadwy-Gwynedd-ac-Eryri-2035.pdf

8 https://eryri.llyw.cymru/

# 3. Yr Ardal

## 3.1 Ffeithiau ac Asedau

**Lleoliad**

Yn ôl gwefan Cyngor Cymuned Llanfrothen:[9]

*“Mae tir Llanfrothen yn ymledu o lannau’r Glaslyn ar hyd y Morfa Gwyllt gan ddringo hyd y bryniau i’r dwyrain, nes cyrraedd llethrau serth a chribau’r Cnicht a’r Moelwynion.*

*I’r de o’r ardal mae crib greigiog yn rhedeg tua’r dwyrain. Yn y gogledd-ddwyrain a’r gogledd mae Moelwyn Bach, Moelwyn Mawr, Cnicht a’r Wyddfa. Ac wedyn i gyfeiriad y gorllewin mae Moel Hebog, Moel Ddu a Moel y Gest yn arwain yn ôl at y môr a Bae Tremadog.*

*Cafodd Llanfrothen ei enw ar ôl Sant Brothen a sefydlodd eglwys yma yn y chweched neu’r seithfed ganrif.*

*Mae Llanfrothen yn cynnwys tri phentref sef Garreg, Croesor a Rhyd.”*

**Y Boblogaeth**

Rydym yn amcan fod cyfanswm o tua 200 o gartrefi yn y pentref.

Yn ôl crynodeb Cyngor Gwynedd o ddata Cyfrifiad 2021,[10] mae cyfanswm poblogaeth ardal Llanfrothen yn 1,065, gyda dosbarthiad oedran fel a ganlyn:

0–19 oed: 216
20–64 oed: 566
65+ oed: 283

Mae 69.8% o’r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg.

**Busnesau a Sefydliadau***
Dyma rai o’r busnesau a sefydliadau sy’n weithredol yn Llanfrothen:

---

[9] Cyngor Cymuned Llanfrothen; https://llanfrothenacroesor.org/index.html
[10] Data Cyfrifiad 2021 Llanfrothen (Cyngor Gwynedd); https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Ystadegau-a-data-allweddol/Cyfrifiad-2021/Llanfrothen-C.pdf

Cnicht Cleaning
Llechen Lan (cwmni adeiladu)
Siop a chaffi cymunedol
Sarah Malone Ceramics
Gerddi a chaffi Plas Brondanw
Hempcrete Cymru
Cyfeillion Croesor
Sawl fferm
Sawl llety ymwelwyr
Gwasanaethau Coed Pearson & Co Ltd
KW Jones Plant Hire
Dinas Contracting
H Jones & Sons Groundworks
Stiwdio Ferlas
Locations Wales (lleoliadau ffilm a theledu)
CDL Partitions
JAF Electrics
Tracey Yoga
Gabriel Gheorghita – peiriannydd strwythurol
Arwyn Williams – garddwr
Gwion Ifan – ffensio a tirlunio
Gelli Engineering
Cig Gelli – arlwyo symudol
Publicity Works Ltd

**Mudiadau a Gweithgareddau***
Dyma flas o’r prif fudiadau a gweithgareddau sy’n weithredol yn Llanfrothen:

Cyngor Cymuned
Ysgol y Garreg
Cyfeillion Croesor
Menter Llanfrothen
Eglwys Sant Brothen
Ymddiriedolaeth Clough Williams-Ellis
Ymddiriedolaeth Susan Williams-Ellis

***Noder** – *Mae’n bosib nad yw’r rhestrau hyn yn hollol gyflawn, os ydych yn adnabod unrhyw fylchau, cysylltwch â ni – manylion ar y dudalen flaen.*

## 3.2 Twristiaeth

### Buddion Twristiaeth

Mae twristiaeth gynaliadwy yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi tafarndai cymunedol a’u llwyddiant cyffredinol, gyda sawl rheswm pam ei fod yn bwysig:

**Mwy o Refeniw –** Mae twristiaeth yn dod â llif cyson o ymwelwyr i mewn o'r tu allan i'r ardal leol, gan ddarparu sylfaen cwsmeriaid ehangach ar gyfer tafarndai cymunedol. Mae twristiaid yn aml yn chwilio am brofiadau unigryw a dilys, a gall tafarndai cymunedol gynnig blas iddynt o ddiwylliant lleol, lletygarwch, a phrofiadau tafarn traddodiadol. Gall twristiaeth roi hwb sylweddol i refeniw'r dafarn a chyfrannu at ei chynaliadwyedd ariannol.

**Effaith Economaidd Leol Bositif** – Mae twristiaeth yn dod ag incwm pwysig i'r gymuned, er budd busnesau, cyflenwyr a gwasanaethau lleol. Gall tafarndai cymunedol ddenu twristiaid i'r ardal, gan eu hannog i wario arian ar lety, atyniadau lleol, trafnidiaeth a gwasanaethau eraill. Mae'r effaith hon yn ysgogi'r economi leol, gan greu cyfleoedd cyflogaeth a chynhyrchu incwm i wahanol fusnesau.

**Proffil a Hyrwyddo** – Mae twristiaeth yn rhoi cyfle i dafarndai cymunedol gynyddu eu gwelededd. Mae twristiaid yn aml yn dibynnu ar argymhellion, adolygiadau ar-lein, ac ar lafar i ddarganfod lleoedd newydd i ymweld â nhw. Gall profiad cadarnhaol mewn tafarn gymunedol arwain at ymwelwyr yn rhannu eu profiadau ag eraill, ar-lein ac all-lein, a thrwy hynny hyrwyddo'r dafarn i gynulleidfa ehangach.

**Cyfnewid Diwylliannol** – Mae tafarndai cymunedol yn ganolbwyntiau diwylliannol pwysig sy'n arddangos treftadaeth, traddodiadau, bwyd a lletygarwch. Mae twristiaid sy'n ymweld â thafarndai cymunedol yn cael y cyfle i ryngweithio â phobl leol, dysgu am hanes a diwylliant yr ardal, a phrofi traddodiadau lleol dilys. Gall y cyfnewid diwylliannol hwn feithrin mwy o werthfawrogiad o'r gymuned, ei threftadaeth, y Gymraeg, a'i phobl.

**Gwarchod Treftadaeth Leol** – Yn aml mae gan dafarndai cymunedol hanes a threftadaeth gyfoethog yn gysylltiedig â nhw. Gallant fod mewn adeiladau hanesyddol neu fod ganddynt draddodiadau hirsefydlog. Trwy ddenu twristiaid, gall tafarndai cymunedol godi ymwybyddiaeth o'u harwyddocâd hanesyddol a chyfrannu at gadwraeth treftadaeth leol.

**Balchder a Hunaniaeth Gymunedol** – Gall tafarndai cymunedol feithrin ymdeimlad o falchder a hunaniaeth yn y gymuned leol. Pan fydd ymwelwyr yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau arlwy tafarn gymunedol, mae'n atgyfnerthu hyder a balchder y gymuned yn ei diwylliant, ei thraddodiadau, a'i sefydliadau lleol unigryw.

**Cefnogi Busnesau Lleol Eraill** – Mae tafarndai cymunedol yn aml yn cydweithio â chyflenwyr lleol, ffermwyr, bragdai a chrefftwyr i ddod o hyd i'w cynnyrch. Gall cynnydd mewn twristiaeth greu mwy o alw am y nwyddau hyn o ffynonellau lleol, gan fod o fudd i fusnesau eraill yn y gymuned a hybu cynaliadwyedd a thwf economaidd.

I grynhoi, mae twristiaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i dafarndai cymunedol ffynnu'n economaidd, creu cysylltiad, arddangos diwylliant lleol, a chyfrannu at les a ffyniant cyffredinol y gymuned. Trwy ddenu twristiaid, gall tafarn y Ring barhau i

gefnogi'r economi leol, cadw treftadaeth, hyrwyddo balchder cymunedol, a meithrin cyfnewid diwylliannol.

**Twristiaeth Ardal Llanfrothen**

Nid yw ystadegau twristiaeth ar gyfer ardal Llanfrothen ar gael yn rhwydd. Fodd bynnag, mae Gwynedd gyfan yn gyrchfan arwyddocaol o fewn economi ymwelwyr Cymru. Yn 2019, croesawodd y sir tua 7.8 miliwn o ymwelwyr, gan gyfrannu tua £1.35 biliwn i'r economi leol. Roedd yr ymwelwyr hyn yn cyfrif am 20.1 miliwn o arosiadau dros nos a 23.93 miliwn o ymweliadau dydd.[11]

Er bod data penodol i Lanfrothen yn gyfyngedig, mae ei leoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn awgrymu ei fod yn elwa o dueddiadau twristiaeth ehangach y rhanbarth. Profodd y Parc Cenedlaethol nifer cynyddol o ymwelwyr yn dilyn llacio cyfyngiadau COVID-19, gan arwain at bwysau ar reoli ymwelwyr a'r amgylchedd.

## 3.3 Sylfaen Gwsmeriaid/Cynulleidfa Darged

Dyma fraslun o sylfaen cwsmeriaid y Ring dros y blynyddoedd:

- Ystod eang o oedran yn ymweld ag yn cymysgu (18–80+ oed).
- Teuluoedd y pentref yn ymweld.
- Pobl yn hoffi mynd am beint ar ôl gwaith.
- Gigs prynhawn yn dod â llawer o bobl ifanc i'r Ring (18+).
- Grwpiau ifanc yn cyrraedd ar brynhawniau gwyl banc yn enwedig pan yn braf.
- Teuluoedd yn dueddol o ddefnyddio'r ardd pan mae'n braf.
- Rygbi yn tynnu lot i mewn – wastad wedi cynnig bwyd am ddim hanner amser.
- Pasg, haf a gwyliau banc yn brysur – cyfle i wneud y mwyaf o incwm bwyd.
- Y gymuned leol yn gefnogol iawn dros gyfnod y Nadolig.
- Y dafarn yn distewi ar ol 9yh yn ystod yr wythnos, enwedig ar nos Lun, Mawrth a Sul.
- Gaeaf – pobl leol ac o ardaloedd cyfagos fel Penrhyndeudraeth yw'r prif gwsmeriaid.
- Bwyd: gallu bod yn ddistaw amser cinio hyd yn oed yn yr haf (12–3yh). Erbyn i bobl ddod lawr o'r mynyddoedd/gweithgareddau eraill mae mwy o alw am fwyd, hyd yn oed cyn swper (e.e. bowlen o sglodion efo peint).
- Syniadau blaenorol o dynnu pobl i mewn: awr hapus, cerdyn ffyddlondeb i bobl leol, prydau syml i dynnu pobl mewn yn ystod y nos.

[11] Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy 2035 Gwynedd & Eryri (Cyngor Gwynedd & Parc Cenedlaethol Eryri, 2023) - https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2023/06/Cynllun-Strategol-Economi-Ymweld-Cynaliadwy-Gwynedd-ac-Eryri-2035.pdf

## 3.4 Y Gystadleuaeth

Cryfder y Ring yw ei bod yn dafarn eiconig ac unigryw, gydag enw da am fod yn dafarn a thŷ bwyta gwledig poblogaidd ar gyfer amrediad o gwsmeriaid o ardaloedd eang. Mae'n cynnig croeso cynnes mewn awyrgylch hamddenol, cartrefol a Chymraeg.

Y Ring yw'r unig dafarn ym mhentref Llanfrothen, ers blynyddoedd maith mae'n adnabyddus am gynnig profiad ardderchog. Mae tafarndai poblogaidd eraill lleol yn cynnwys:

- Griffin, Penrhyndeudraeth (bwyd, diod, adloniant) (tua 2 filltir i ffwrdd)
- Royal Oak (diodydd), Penrhyndeudraeth (tua 2 filltir i ffwrdd)
- Golden Fleece, Tremadog (bwyd) (tua 2.5 milltir i ffwrdd)
- Union, Tremadog (bwyd a diod) (tua 2.5 milltir i ffwrdd)
- Ship Aground, Talsarnau (bwyd, diod ac adloniant) (tua 2.5 milltir i ffwrdd)

Mae adroddiad gan Croeso Cymru[12] yn cadarnhau bod golygfeydd a thirwedd eithriadol, hanes a threftadaeth a bwyd a diod lleol o safon yn elfennau pwysig iawn mewn denu ymwelwyr i Gymru.

# 4. Cynnwys y Gymuned a Phartneriaid

## 4.1 Holiadur Cychwynnol

Wrth gychwyn y broses o geisio perchnogi prydles y dafarn, penderfynwyd lansio holiadur i ganfod barn cychwynnol y gymuned am y syniad. Ym mis Tachwedd 2024 fe ddosbarthwyd holiadur papur ac ar-lein, gyda cymorth busnesau lleol a thrwy ddosbarthu i gartrefi'r ardal. Roedd casgliadau'r holiadur yn bositif ac yn rhoi hyder i ni symud ymlaen gyda'r bwriad o berchnogi prydles y Ring:

a) Derbyniwyd ymatebion gan gyfanswm o 144 o gartrefi a sefydliadau.
b) Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn byw yn Llanfrothen (43%), neu o fewn 5 milltir i Lanfrothen (31%).
c) Roedd 90% o'r ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r bwriad o brynu a rhedeg Tafarn y Ring fel tafarn gymunedol a diogelu ei dyfodol, 74% o'r rhain yn "Cytuno'n Gryf", a 16% yn "Cytuno".

[12] Adroddiad Galw'r Farchnad ym maes Twristiaeth(Croeso Cymru, 2023) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-02/adroddiad-galwr-farchnad-ym-maes-twristiaeth-croeso-cymru-y-du-ionawr-2023.pdf

*"Rwyf yn gefnogol iawn o'r bwriad i brynu a rhedeg y Ring fel tafarn gymunedol."*

*"I used to live in Llanfrothen, and will be back one day :) So happy this will be bought by the community!!!"*

d) Dim ond 2% oedd yn anghytuno efo'r bwriad o brynu a rhedeg Tafarn y Ring fel tafarn gymunedol, ni nodwyd rheswm am hyn.
e) Roedd cyfanswm o 60% o'r ymatebwyr yn dweud y bydden nhw yn ymweld â thafarn y Ring yn rheolaidd – roedd hyn yn amrywio o 2–3 gwaith yr wythnos i o leiaf unwaith bob pythefnos.
f) O'r gwasanaethau posibl a restrwyd yn yr holiadur, y rhai mwyaf poblogaidd oedd:
   - Cerddoriaeth fyw (84%)
   - Bwyd gyda'r nos (83%)
   - Cinio dydd Sul (71%)
   - Digwyddiadau cymdeithasol (70%)
   - Sesiynau i ddysgwyr Cymraeg (56%)
   - Bwyd yn ystod y dydd (54%)
   - Offer chwarae i blant (52%)
   - Gweithgareddau a grwpiau cymdeithasol (44%).
g) Roedd cefnogaeth i sawl math o ddigwyddiad arall oedd ddim wedi eu rhestru yn yr holiadur. Y mwyaf poblogaidd o'r rhain oedd:
   - Sinema (5 person)
   - Ffair grefftau/celf (3)
   - Sel cist car (3)
   - Clybiau (gwau, gwyddbwyll, coginio, cerdded, coffi) (2)
   - Cwis/bingo (2)
   - Gardd gymunedol (2)
   - Parcio i faniau campio (2)
   - Roedd sawl syniad arall hefyd a gynigwyd gan unigolion – blasu gwin/cwrw/jin, caffi trwsio, gwasanaeth bws (i'r rhai sydd methu teithio i'r Ring), noson cyri, noson dêt, partïon preifat (priodasau ayyb), polisi iaith, pryd ar glud, sgrin fawr (pel-droed a rygbi), siop lleol, Talwrn y Beirdd, timau tafarn (pŵl, darts).
h) Roedd sawl sylw ynglŷn â'r angen i sicrhau fod y dafarn yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, a'r angen i wella hygyrchedd y dafarn.

*"Fel menter gymunedol sy'n cynrychioli cymuned Gymraeg ei hiaith yn bennaf – mae'n hanfodol bod y fenter yn mabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg cadarn, sy'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg. Ni ddylid penodi tenant nes bydd polisi iaith wedi ei fabwysiadu."*

*"Hoffwn weld y Gymraeg yn cael ei blaenoriaethu os bosib er mwyn cadw teimlad Cymreigaidd y Ring."*

*"Accessibility for wheelchair users needs to be addressed."*

i) Roedd 101 o ymatebwyr yn nodi eu bod yn awyddus i helpu ymhellach, (o’r rain, 63 adawodd eu manylion cyswllt).
j) Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (73) yn nodi eu bod nhw’n barod i brynu siârs/cyfranddaliadau.

### 4.2 Cyfarfodydd Cyhoeddus

Bu cyfarfod cyhoeddus cychwynnol ar 16 Medi 2024 i drafod y syniad o geisio perchnogi prydles y dafarn fel cymuned. Roedd tua 100 o bobl wedi mynychu’r cyfarfod, ac roedd cytundeb cryf a chonsensws i symud ymlaen gyda pherchnogi prydles tafarn y Ring fel cymuned. Sefydlwyd Pwyllgor Rheoli Cychwynnol a sefydlwyd Cymdeithas Budd Cymunedol, gyda’r nod o brynu prydles y dafarn a’i rhedeg fel menter gymunedol.

Ar 28 Rhagfyr 2024, cynhaliom gig cymunedol, gyda’r nod o godi ymwybyddiaeth o’r Fenter, ymgysylltu a rhannu gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus yn denu 230 o bobl a, gyda chymorth grant Grymuso Gwynedd Menter Môn, codwyd dros £7,000 ar gyfer y Fenter.

## 5. Prynu Prydles Tafarn y Ring

### 5.1 Costau ac Amserlen

Trwy gynigion o fenthyciadau, rydym wedi gallu gwneud cynnig ar gyfer y brydles ac mae ein cynnig wedi ei dderbyn. Oherwydd sensitifrwydd masnachol, ni allwn ddatgelu y swm rydym wedi ei gynnig ar hyn o bryd nes fydd y pryniant wedi ei gwblhau.

Bydd y pryniant yn cael ei ariannu trwy werthu cyfranddaliadau cymunedol fydd ar gael yn ystod cynnig cyfranddaliadau Mawrth 2025. Daw rhywun yn aelod o’r Gymdeithas drwy brynu **cyfranddaliadau (isafswm gwariant o £100)**, ac mewn cyfarfodydd cyffredinol mae gan bob aelod un bleidlais.

**Ein targed codi arian drwy gyfranddaliadau ydy £200,000.**

Mae hyn yn sicrhau arian digonol i sicrhau pryniant y brydles, costau cyfreithiol a chreu cronfa wrth gefn ar gyfer costau adnewyddu a costau rhedeg cychwynnol.

**Ein amserlen targed ar gyfer cwblhau’r pryniant ydy Ebrill 2025.**

## 5.2 Cyflwr yr Adeilad

Mae'r adeilad yn rhestredig gradd II, wedi'i adeiladu oddeutu 1800 ac estyniad wedi'i osod tua 1970. Bydd angen sicrhau fod unrhyw waith adnewyddu ar yr adeilad ac ardal allanol yn unol â gofynion a rheoliadau cadwraeth.

Mae arolwg strwythurol wedi'i wneud ar yr adeilad gan gwmni proffesiynol NWS Cyf. Mae'r adroddiad yn cadarnhau fod strwythur yr adeilad yn ei gyfanrwydd mewn cyflwr derbyniol o ystyried ei oedran, ond mae rhai elfennau angen sylw pellach, e.e. to fflat, simdde.

Mae Adroddiad Cyflwr wedi ei gwblhau gan gwmni pensaernïol DB3 – mae hyn wedi rhoi amlinelliad o'r gwaith adnewyddu sydd angen ei wneud. I wneud gwelliannau sylfaenol er mwyn ail agor y dafarn yn unig, bydd angen buddsoddi tua £11,100.

Mae'r fflat angen gwelliannau sylweddol cyn iddo fod yn addas i rywun allu byw neu aros ynddo. Yn y tymor hir mae gennym weledigaeth i wneud gwaith adnewyddu pellach i ddiogelu strwythur y dafarn, gwella hygyrchedd, ymestyn y gofod ac gwella'r ardal allanol. Côst y gwaith adnewyddu hwn i'r fflat a'r dafarn fydd cyfanswm oddeutu £807,000.

Rydym yn barod wedi dechrau'r broses o edrych mewn i ffynonellau grantiau a byddwn yn ceisio am grantiau i ariannu gwaith ar yr adeilad. Gan fod yr adeilad yn rhestredig gradd II, mae hyn yn golygu y gallai'r dafarn fod yn gymwys i geisio am grantiau penodol megis Cronfa Treftadaeth Bensaernïol Cymru[13] a Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.[14] Mae enghreifftiau o dafarndai cymunedol eraill yng Ngwynedd sydd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol drwy'r cronfeydd hyn.

## 5.3 Uwchraddio a Datblygu'r Adeilad

Ar sail yr arolwg cyflwr, mae gwaith uwchraddio sylfaenol fydd angen ei wneud yn y flwyddyn gyntaf cyn y gallwn osod y dafarn i denant neu benodi reolwr.

Dros gyfnod o 2–5 mlynedd, fel y bydd y busnes yn datblygu ymhellach a'n gweledigaeth llawn yn cael ei gwireddu, rhagwelir y bydd modd addasu'r adeilad i fod yn fwy hygyrch (lifft a thoiled hygyrch) ac amgylcheddol gyfeillgar (e.e gosod paneli solar a bwyler gwresogi newydd). Gellir hefyd ystyried codi estyniad a gwneud gwelliannau i'r ardal allanol, bydd hyn yn ehangu'r gofod cymdeithasu ac yn uchafu incwm y dafarn.

---

[13] Cronfa Treftadaeth Bensaerniol Cymru - https://ahfund.org.uk/grants/wales/

[14] Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol - https://www.heritagefund.org.uk/cy/node/107838

## 5.4 Lleihau Ein Heffaith ar yr Amgylchedd a'n Ymrwymiad i Ddatblygiad Cynaliadwy.

Mae Menter y Ring yn credu bod gwarchod yr amgylchedd a chymdeithas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn bwysig ac mae wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau cynaliadwy a defnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy. Caiff yr egwyddorion hyn eu hymgorffori yn ein holl weithgareddau ac maent yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth o ddatblygu'r Ring fel canolfan gymunedol, busnes cynaliadwy a chyfleuster amlbwrpas sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfan, tra'r ydym hefyd yn diogelu'r ased hanesyddol hwn. Mae'r Fenter hefyd yn effro iawn i'r ffaith bod defnydd effeithlon o adnoddau e.e. lleihau defnydd trydan a dŵr, yn gwneud synnwyr busnes ac yn fodd i gyfrannu'n uniongyrchol at lwyddiant masnachol y fenter, yn enwedig felly yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Byddwn yn cadw at yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy drwy wneud y canlynol:

- meddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol
- atal problemau cyn iddynt ddigwydd
- integreiddio ein gwasanaethau, ein sgiliau, ein cynllunio a'n cyfrifoldebau
- cynnwys ein cwsmeriaid, cydweithwyr, gwirfoddolwyr a'r gymuned yn ein penderfyniadau
- gweithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau lles pawb

Fel rhan o'n hymrwymiad amgylcheddol, bydd unrhyw waith adnewyddu ar y Ring yn blaenoriaethu effeithlonrwydd egni. Bydd gwaith y Fenter yn anelu at ostwng ein hôl-troed carbon gymaint â phosibl a gwireddu potensial unrhyw waith sy'n hybu'r amgylchedd, megis gwelliannau carbon-isel, lleihau defnydd ynni, creu ynni ein hunain, garddio bywyd gwyllt ac yn y blaen. Byddwn yn defnyddio deunyddiau lleol, naturiol a chynaliadwy lle bynnag bod hyn yn bosibl.

Byddwn yn derbyn cyngor arbenigol i sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion amgylcheddol gorau gyda ffocws ar effeithlonrwydd. Byddwn yn creu polisi amgylcheddol a bydd ei weithrediad yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Rheoli.

# 6. Y Cynnig Busnes

## 6.1 Model Busnes

Rhoddwyd ystyriaeth ofalus gan y Pwyllgor i'r gwahanol fodelau posibl ar gyfer rhedeg tafarn gymunedol, sef:

a) Model Tenantiaeth (gydag amodau cymunedol)
b) Model Rheolwr (yn cael ei gyflogi ac yn atebol i'r Pwyllgor Rheoli)
c) Model Hybrid Tenant/Rheolwr
d) Model Cymunedol/Gwirfoddol (ble byddai aelodau'r Pwyllgor Rheoli a gwirfoddolwyr yn cynnal y busnes yn gyfan gwbl)

Mae i bob model ei fanteision ac anfanteision, ac mae'r buddsoddiad amser ac ymrwymiad gan y gymuned yn amrywio yn fawr rhwng pob opsiwn. I'n helpu ddod i benderfyniad, derbyniwyd cyngor arbenigol gan y Plunkett Foundation, a thafarndai cymunedol eraill, ar y model gorau i Menter yr Y Ring.

**Ar hyn o bryd mae'r Fenter yn ffafrio'r Model Tenantiaeth gydag amodau cymunedol (a) neu'r model Hybrid Tenant/Rheolwr (c). Mae'r cynllun busnes hwn a'r ffigyrau presennol wedi eu seilio ar opsiwn (a) ond gallai hyn newid yn y dyfodol. Rydym yn derbyn cyngor proffesiynol ar y mater.**

Y rhesymeg dros hyn:

- Byddai'n golygu llai o ymrwymiad amser gan y gymuned, aelodau Pwyllgor Rheoli a gwirfoddolwyr. Mae hyn yn fwy realistig mewn cymuned fach ac yn rhoi'r cyfle gorau i'r fenter lwyddo.
- Mae'r model tenantiaeth yn lleihau risg ariannol i'r Fenter.
- Mae recriwtio staff yn y maes yn heriol ar hyn o bryd (ar sail profiadau tafarndai eraill), byddai hyn yn her ychwanegol i'r Pwyllgor Rheoli. Heb recriwtio a chyflogi staff, ni fyddai modd ail agor y Ring.
- Wedi dysgu o brofiadau tafarndai cymunedol eraill yng Nghymru.
- Mae mwy o gymhelliant i denant lwyddo nag sydd i reolwr.

Dylid nodi, os bydd amgylchiadau yn arwain at yr angen am opsiwn (c) (Hybrid Tenant/Rheolwr) bydd y cynllun busnes yma yn cael ei ddiweddaru, a'i ail gylchredeg.

**Model Tenantiaeth gydag Amodau Cymunedol**

O dan y model hwn:

- Byddai'r dafarn yn cael ei osod ar brydles i denant, sef landlord y dafarn.
- Byddai'r tenant/landlord yn rhedeg y busnes yn annibynnol.

- Bydd y rhent yn cael ei osod ar lefel fforddiadwy ond realistig, sy'n rhoi'r cyfle a'r cymhelliant i'r tenant redeg busnes ffyniannus.
- Byddai'r Cymdeithas Budd Cymunedol, sef Menter y Ring, yn derbyn rhent blynyddol gan y tenant/landlord. Mae hyn yn golygu incwm blynyddol sefydlog i'r Gymdeithas.
- Bydd y Gymdeithas yn defnyddio'r incwm rhent i gynnal yr adeilad, hwyluso tynnu'n ôl gan aelodau o'u cyfranddaliadau (os yw'r angen yn codi), buddsoddi mewn adnoddau cymdeithasol ychwanegol ac, os yn fforddiadwy, talu llog i aelodau.
- Mae'r risg ariannol o redeg y dafarn yn eistedd gyda'r tenant/landlord, yn cynnwys y gallu i elwa o gyfnodau llwyddiant.
- Mae unrhyw ddyledion ariannol yn gyfrifoldeb ar y tenant/landlord.
- Yn nhermau rhediad dydd i ddydd y dafarn, mae hyn o dan reolaeth a chyfrifoldeb y tenant/landlord. Mi all y Gymdeithas ddylanwadu ar hyn, drwy nodi amodau cymunedol yn y brydles. Bydd y Gymdeithas hefyd efo potensial i ddylanwadu ar weithgareddau cymunedol y tenant trwy cynnig cymhelliant ariannol (h.y. gostyngiad rhent) am gyrraedd nodau'r fenter.
- Byddai'r Gymdeithas yn gymwys i ymgeisio am grantiau tuag at ddatblygu a gwella'r adnodd er bydd y gymuned, mewn cydweithrediad gyda'r tenant.
- Bydd amodau cymunedol ffurfiol yn cael eu gosod yn y cytundeb er mwyn diogelu'r gwasanaethau allweddol ac er mwyn diogelu'r Ring fel canolfan gymunedol sy'n gartref i ddigwyddiadau o bob math.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn:

- Gwahodd datganiadau o ddiddordeb ffurfiol am y rôl tenant. Bydd y cyfle yn cael ei hysbysebu yn agored ac yn eang drwy wahanol gyfryngau.
- Byddwn yn dilyn proses asesu a dethol teg a thryloyw.
- Bydd union amodau'r brydles a thelerau i'w trafod a'i penderfynu gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.
- Bydd amodau cymunedol ffurfiol yn cael eu gosod yn y cytundeb er mwyn diogelu'r gwasanaethau allweddol ac er mwyn diogelu'r Ring fel canolfan gymunedol sy'n gartref i ddigwyddiadau o bob math.
- Bydd cyngor cyfreithiol yn cael ei dderbyn er mwyn llunio'r brydles.

## 6.2 Rhagolwg Ariannol

Isod mae rhagolwg lefel uchel elw a cholled dros bedair blynedd. Mae'n dangos gall y fenter fod yn hyfyw a gwneud elw. Mae'r isod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau:

- Bydd yr union lefel rhent yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r tenant, ond mae'n rhoi syniad o beth rydym yn credu sydd yn rhent teg ac yn rhoi'r cyfle gorau i denant sefydlu'r busnes.
- Byddwn yn anelu i dalu llog i gyfranddalwyr o flwyddyn 4 ymlaen.

- Nid yw'n cymryd i ystyriaeth unrhyw waith datblygu i'r adeilad, ond pe bai'r Fenter yn penderfynu gwneud estyniad er enghraifft byddai'n ymgeisio am grantiau tuag at ariannu'r gwaith.

**Rhagolwg Elw a Cholled**

| | **Blwyddyn** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **£** | **1** | **2** | **3** | **4** |
| | | | | |
| Rhagolwg Trosiant | £150,000.00 | £200,000.00 | £300,000.00 | £400,000.00 |
| | | | | |
| **INCWM** | | | | |
| Arian cyfranddaliadau | £50,000.00 | | | |
| Rhent | £12,000.00 | £16,000.00 | £27,000.00 | £38,000.00 |
| **CYFANSWM INCWM** | £62,000.00 | £16,000.00 | £27,000.00 | £38,000.00 |
| | | | | |
| **GWARIANT** | | | | |
| Yswiriant | £2,000.00 | £2,100.00 | £2,205.00 | £2,315.25 |
| Llog cyfranddalwyr | £0.00 | 0 | 0 | 0 |
| Costau cychwynnol ac addasiadau | £20,000.00 | | | |
| Ffioedd proffesiynol | £2,000.00 | £2,060.00 | £2,121.80 | £2,185.45 |
| Cynnal a chadw | £5,000.00 | 6000 | 7000 | 8000 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £29,000.00 | £10,160.00 | £11,326.80 | £12,500.70 |
| | | | | |
| **ELW CYN TRETH** | £33,000.00 | £5,840.00 | £15,673.20 | £25,499.30 |
| Treth 19% | £6,270.00 | £1,109.60 | £2,977.91 | £4,844.87 |
| **ELW AR ÔL TRETH** | £26,730.00 | £4,730.40 | £12,695.29 | £20,654.43 |

## 6.3 Gweithgareddau ac Adloniant

Byddwn yn sicrhau fod y tenant yn glir o'r disgwyliadau i gynnal digwyddiadau cyson yn y Ring sy'n unôl ag amcanion a gwerthoedd y Fenter, trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) gigs, cwisiau, gornestau dartiau ac yn y blaen. Bydd hyn yn ychwanegu at yr incwm ac yn cryfhau elfen gymunedol y dafarn.

# 7. Marchnata a Hyrwyddo

Bydd marchnata rhagweithiol yn hanfodol i lwyddiant yr y Ring. Bydd y cyfrifoldeb dros farchnata a hyrwyddo y dafarn weithredol yn eistedd gyda’r tenant. Mae ymgyrch farchnata sefydlu Menter y Ring â’r cynnig cyfranddaliadau yn eistedd gyda’r Gymdeithas.

## 7.1 Y Cynnig Cyfranddaliadau

Neges gyffredinol yr ymgyrch fydd diogelu dyfodol y dafarn a’i sefydlu fel tafarn gymunedol. Bydd buddsoddwyr yn cael eu targedu'n bennaf drwy waith wyneb yn wyneb yn yr ardal, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg ledled Cymru, a thu hwnt drwy'r rhwydwaith Tafarndai Cymunedol ac unrhyw rwydweithiau eraill perthnasol.

Bydd y cynnig cyfranddaliadau’n cael ei hyrwyddo’n defnyddio dulliau a thactegau amrywiol, gan gynnwys:

- Taflen hyrwyddo a fydd yn fersiwn byrrach a mwy bachog o'r cynnig cyfranddaliadau, i’w ddosbarthu yn eang – enwedig i'r sawl nad oes ganddynt fynediad at lwyfannau digidol, neu nad ydynt yn eu defnyddio.
- Cynnwys ffotograffig a chynnwys fideo i'w defnyddio ar ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Recriwtio 'llysgenhadon' mewn gwahanol rannau o Gymru ac yn ehangach.
- Mae gennym aelodau o'r gymuned sy'n gweithio yn y cyfryngau ac mae nifer o gysylltiadau eraill yn y wasg wedi eu meithrin dros y misoedd diwethaf. Byddwn yn defnyddio'r cysylltiadau hyn i sicrhau llif cyson o sylw yn y wasg wrth i ni weithredu'r ymgyrch.

## 7.2 Y Busnes

Unwaith bydd y Ring ar agor, bydd cymysgedd y ‘cynnig’ yn cynnwys bwyd, diod, a digwyddiadau cymunedol. Bydd y cyfrifoldeb dros farchnata a hyrwyddo y Ring yn eistedd gyda’r tenant a bydd hyn wedi ei nodi yn y cytundeb.

# 8. Llywodraethu

## 8.1 Cymdeithas Budd Cymunedol

Mae Menter y Ring wedi'i chofrestru o dan y gyfraith fel Cymdeithas Budd Cymunedol gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (rhif 9429). Mae'r Gymdeithas yn bodoli er mwyn cynnal busnes er budd y gymuned, ac mae'n ymrwymedig i wneud y pethau canlynol:

- masnachu er budd y gymuned, ac nid er budd preifat unrhyw un
- cadw elw a defnyddio elw i hyrwyddo diben y Gymdeithas.

Mae Menter y Ring yn ddarostyngedig i reolau'r sefydliad a bydd y Pwyllgor Rheoli yn rheoli materion y Gymdeithas.

## 8.2 Pwyllgor Rheoli

Yn ystod cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024, ffurfiwyd y Pwyllgor Rheoli Cychwynnol o blith y rhai a nododd ddiddordeb mewn bod yn aelodau. Mae'r Pwyllgor hwn yn cynnwys 11 o bobl, ac mae'r aelodau fel a ganlyn:

**Dafydd Emlyn Thomas – Cadeirydd**
Magwyd Dafydd Emlyn yn Llanfrothen, ei fam yn wreiddiol o Rhyd. Adeiladwr/rheolwr safle ers 45 mlynedd efo diddordebau mewn beiciau modur a rygbi (cyn-hyfforddwr tîm ieuenctid Bro Ffestiniog).

**Eleri Stockwell – Is-gadeirydd**
Magwyd Eleri yn Llanfrothen, merch teulu efo'i gwreiddiau yn y fro. Mae hi'n fam a nain, efo cefndir o weithio efo plant mewn gwahanol swyddi. Mae Eleri hefyd wedi gweithio yn y Ring ac mewn sawl tafarn arall.

**Susan Walton – Ysgrifenydd**
Magwyd Susan yng nghanolbarth Cymru ac Ynys Môn, ond mae wedi byw ger Llanfrothen ers 37 mlynedd. Am y 17 mlynedd ddiwethaf mae wedi bod yn hunangyflogedig; cyn hynny bu'n gweithio mewn llywodraeth leol a'r trydydd sector.

**Osian Gruffydd – Dirprwy Ysgrifennydd**
Mae Osian yn byw yn Llanfrothen gyda'i deulu ers 2023, ac mae'n gweithio fel cyfieithydd i Amgueddfa Cymru.

**Bethan Gritten – Trysorydd**
Cafodd Bethan ei geni yn nghwm Croesor ac mae hi wedi gwario'r rhan fwyaf o'i bywyd yn y fro. Mae'n rhedeg cwmni adeiladu treftadaeth o'r enw Llechen Lan gyda'i phartner Ieuan, ac mae ganddynt ddau o blant yn yr ysgol leol. Roedd swydd cyntaf

Bethan yn nhafarn y Ring. Mae hefyd wedi gweithio i Gyngor Sir Dyfnaint ar y National Graduate Development Programme for Local Government a threulio nifer o flynyddoedd fel ymgynghorydd rheoli prosiectau yn y maes amgylcheddol. Enillodd wobr y Psychological Society am y radd gorau ar ei chwrs Seicoleg yn Sussex. Mae ganddi dystysgrif ol-raddedig mewn rheolaeth llywodraeth lleol o Warwick Business School a Thystysgrif Proffesiynol mewn rheoli prosiectau gan yr Association of Project Management. Mae Bethan hefyd yn rhedeg gwersylloedd ar gyfer Forest School Camps.

**Patrick Hughes**
Cafodd Patrick ei fagu yn lleol ac mae ganddo brofiad helaeth o redeg tafarndai amrywiol yng Nghymru a thu hwnt.

**Gwyndaf Hughes**
Mae Gwyndaf yn rhedeg Siop a Chaffi Llanfrothen gyda'i ferch Leonie, sydd wedi'i leoli mewn adeilad yn berchen i Fenter Llanfrothen Cyfyngedig (Menter Gymdeithasol Gymunedol). Mae Gwyndaf wedi rhedeg sawl tafarn yn yr ardal.

**Leonie Hughes**
Mae Leonie'n rhedeg Siop a Chaffi Llanfrothen gyda'i thad, Gwyndaf, sydd wedi'i leoli mewn adeilad yn berchen i Fenter Llanfrothen Cyfyngedig (Menter Gymdeithasol Gymunedol).

**Frazer Moore**
Mae Frazer wedi byw ger Llanfrothen ers 8 mlynedd. Mae'n gweithio ar y môr yn niwydiant olew Norwy. Mae ganddo ddiddordeb mewn adfer hen adeiladau. Mae Frazer yn dda efo gwaith coed a DIY. Pam mae o nôl yng Nghymru, mae'n hyfforddi sgiliau rygbi i griw o ferched ym Mhorthmadog.

**Gwennan Mair Jones**
Cafodd Gwennan ei magu ger Blaenau Ffestiniog. Mae'n Gyfarwyddwr Ymgysylltu Creadigol gyda Theatr Clwyd.

**Jack Peyton**
Magwyd Jack yng Nghwm-y-Glo a symudodd i Lanfrothen 5 mlynedd yn ôl. Mae'n teimlo'n ostyngedig gan y croeso a gafodd gan gymuned Llanfrothen a Croesor. Mae ganddo ddiddordeb mewn adeiladau ac adnewyddu. Helpu i adfer y Ring i'w hen ogoniant yw ei ffordd o ad-dalu'r caredigrwydd hwnnw a'r croeso y mae'r gymuned wedi dangos iddo. Mae'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn adeiladu llwybrau ar lethrau Eryri.

## 8.3 Grwpiau Cefnogi

Mae'r is-bwyllgorau canlynol wedi eu sefydlu i gefnogi'r Pwyllgor Rheoli:

- Pwyllgor Grantiau
- Pwyllgor Marchnata a Chyfathrebu
- Pwyllgor Tafarn a Seler
- Pwyllgor Eiddo

Bydd y is-bwyllgorau yn cynorthwyo'r Pwyllgor Rheoli i gyflawni ei swyddogaethau, yn sicrhau bod y Ring yn cael ei ddatblygu a'i redeg yn effeithiol ac yn cyflawni tasgau penodol ar ei ran.

# 9. Rheoli Risg

## 9.1 Dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleon, Bygythiadau)

Mae’r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar fodel Tenant.

**Cryfderau**

a) Enw da a sylfaen cwsmeriaid da – mae’r Ring yn flaenorol wedi bod yn fusnes hyfyw, llwyddiannus ac yn boblogaidd iawn dros ardal eang.
b) Diffyg cystadleuaeth gan dafarndai, bwytai a gwestai o fewn radiws o 2 milltir.
c) Gofod – mae potensial i gynllunio a defnyddio ardaloedd allanol i uchafu defnydd ac incwm.
d) Adeilad hanesyddol eiconig a deniadol.
e) Lleoliad canolog, o fewn pellter cerdded hawdd i bentrefwyr.
f) Ardal boblogaidd i gerddwyr a beicwyr ac yn agos at ardaloedd twristiaeth poblogaidd eraill.
g) Mae bod yn fenter gymunedol yn golygu y bydd gan gyfranddalwyr gymhelliant i ddefnyddio a chefnogi'r dafarn.
h) Fel Cymdeithas Budd Cymunedol bydd y fenter yn gallu gwneud ceisiadau am arian grant.
i) Ni fydd y Gymdeithas yn gysylltiedig ag unrhyw fragdai, felly byddwn yn gallu negodi'r bargeinion gorau o ran y cyflenwad o fwyd a diod.
j) Tŷ rhydd, heb fod wedi’i glymu i unrhyw fragdy penodol.

**Gwendidau**

a) Dibyniaeth ar fusnes tymhorol.
b) Costau rhedeg, trydan yn enwedig.
c) Cyfyngiadau cynllunio posibl.
d) Yr hinsawdd economaidd gyfredol.

**Cyfleoedd**

a) Adeiladu ar y sylfaen busnes ac enw da hanesyddol.

b) Cwrdd â'r galw am fwyd da yn yr ardal.
c) Datblygu sylfaen cwsmeriaid newydd gan gynnwys gweithwyr o adref, busnesau cyfagos a phobl sy'n chwilio am gwrw lleol a bwyd o ansawdd da o ffynonellau lleol. Denu cwsmeriaid o'r tu hwnt i'r pentref.
d) Cryfhau'r sylfaen cwsmeriaid a theyrngarwch drwy adeiladu ar agwedd gymunedol y dafarn.
e) Cynnwys cwsmeriaid a'r gymuned ehangach drwy drefnu digwyddiadau, sgiliau ymarferol, gwirfoddoli ac ati.
f) Galluogi'r gymuned leol a chyfranddalwyr ehangach i deimlo'n rhan o rywbeth hanesyddol a buddiol i'r pentref.
g) Manteisio ar y cronfeydd cyllid grant sydd ar gael i ddatblygu asedau sy'n eiddo i'r gymuned.

**Bygythiadau**

a) Diffyg diddordeb yn y cynnig cyfranddaliadau cymunedol.
b) Costau trwsio annisgwyl.
c) Gostyngiad mewn cefnogaeth gymunedol, yn gyffredinol ac o ran gwirfoddolwyr.
d) Newidiadau mewn ffactorau allanol dros y tair blynedd nesaf – megis dirywiad economaidd, newidiadau ym mholisïau cyllidwyr grantiau, cystadleuaeth annisgwyl, ac ati.
e) Methiant i benodi tenant addas.

## 9.2 Ymateb i'r Risgiau

Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein cryfderau a manteisio ar y cyfleoedd a nodwyd yn ein dadansoddiad SWOT. Byddwn yn ymateb i rai o'r gwendidau a'r bygythiadau drwy gyfrwng y mesurau canlynol:

**Methu Codi Digon o Arian mewn Cyfranddaliadau a Chyfranddalwyr yn Tynnu'n ôl**

Byddwn yn prynu prydles yr adeilad gyda'r arian a godir o werthu cyfranddaliadau cymunedol. Mae risg na fyddwn yn gallu codi digon o arian drwy gyfranddaliadau, ond byddwn yn rhoi pob ymdrech i fewn i'r ymgyrch farchnata cyfranddaliadau er mwyn gwerthu'r nifer mwyaf posibl o gyfranddaliadau. Fel cynllun wrth gefn, gallwn ddefnyddio rhai o'r addewidion benthyciadau, ond rydym yn awyddus i osgoi hyn os yn bosibl.

Mae Rheolau'r Gymdeithas yn nodi na all aelodau dynnu eu cyfranddaliadau yn ôl yn ystod tair blynedd gyntaf gweithrediad y busnes, er mwyn caniatáu amser iddo sefydlu ei hun. Ar ôl hynny, bydd yn ofynnol i aelodau roi rhybudd yn unol â'r Rheolau os ydynt yn dymuno tynnu eu cyfranddaliadau'n ôl, a chymeradwyir hynny'n amodol ar sicrhau bod yr arian ar gael ac o gael cadarnhad y Pwyllgor Rheoli. Bydd cronfeydd arian parod wrth gefn yn cael eu cronni lle bo'n bosibl er mwyn galluogi pobl i dynnu cyfranddaliadau yn ôl, yn amodol ar ofynion y busnes. Yn ddelfrydol,

bydd cyfranddalwyr presennol neu gyfranddalwyr newydd yn barod i fuddsoddi i wneud yn iawn am gyfranddaliadau sy'n cael eu tynnu'n ôl. Os na ellir gwerthu cyfranddaliadau yn eu lle, yna byddai'r gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio. Er bod Rheolau'r Gymdeithas yn mynnu bod pob aelod yn ymrwymo i'w fuddsoddiad am o leiaf dair blynedd, mae rhai amgylchiadau lle mae'r Pwyllgor Rheoli wedi'i awdurdodi i ganiatáu tynnu'n ôl yn gynnar (e.e. marwolaeth a methdaliad).

Pan fydd modd ystyried ailagor cyfranddaliadau i'w prynu, bydd y Pwyllgor yn nodi meini prawf a therfyn blynyddol priodol. Gall y Pwyllgor atal pobl rhag tynnu cyfranddaliadau'n ôl yn dibynnu ar fuddiannau hirdymor y Gymdeithas, yr angen i gynnal cronfeydd digonol wrth gefn, a'r ymrwymiad i'r gymuned.

**Methiant i Ddenu Tenant Addas**

Rydym wedi dewis y model tenant gan i ni deimlo mai dyma'r opsiwn sydd yn cyflwyno'r risg lleiaf i'r Gymdeithas. Mae'n golygu siawns o ail agor y Ring mor fuan â phosibl ac yn golygu llai o ymrwymiad amser gan wirfoddolwyr ac aelodau'r Pwyllgor Rheoli. Rydym wedi dysgu o brofiadau tafarndai eraill ac wedi dod i ddeall fod y modelau Rheolwr ac Cymunedol/Gwirfoddolwyr yn golygu llawer o fuddsoddiad amser a chyfrifoldebau ychwanegol fel cyflogwr.

Yn barod, rydym wedi derbyn ymholiadau anffurfiol am y cyfle tenantiaeth ac yn ffyddiog y bydd diddordeb gan ymgeiswyr lleol. Yn hanesyddol mae'r busnes wedi bod yn un hyfyw a phoblogaidd. Byddwn yn hysbysebu'r cyfle i gyflwyno cais ffurfiol am denantiaeth y Ring, gan ddilyn proses ffurfiol ar gyfer asesu, dethol a dewis. Fel cynllun wrth gefn, os na fyddwn yn llwyddo i ddenu tenant, byddwn yn gweithredu'r model Rheolwr ac yn mynd ati i hysbysebu am Reolwr a thîm o staff.

**Costau Annisgwyl**

Rydym wedi comisiynu arolwg strwythurol ac arolwg cyflwr o'r adeilad, sydd yn dangos fod yr adeilad a chyfleusterau mewn cyflwr derbyniol o ystyried eu oedran, ond mae gwaith adnewyddu sylfaenol ei angen. Rydym yn cydnabod y bydd angen rhywfaint o waith adnewyddu ac atgyweirio. Er mwyn cynyddu hyfywedd y prosiect, rydym yn awyddus i ystyried ehangu'r gofod bwyta yn y tymor hir. Un mantais o fod yn dafarn gymunedol ydy fod y Gymdeithas yn gymwys i ymgeisio am grantiau cymunedol a busnes. Bydd y Gymdeithas yn gweithio'n agos gyda'r tenant er mwyn denu unrhyw grantiau i'r dyfodol, er mwyn datblygu'r adeilad ymhellach er budd y gymuned.

Mae ein Pwyllgor Rheoli yn cynnwys aelodau sydd â phrofiad o wneud ceisiadau llwyddiannus am grantiau a bydd hyn yn fantais. Mae ein Pwyllgor hefyd yn cynnwys perchnogion busnes lleol, sydd yn ymwybodol o heriau ac o unrhyw gymorth sydd ar gael i ymateb i'r heriau hyn.

**Denu Busnes**
Unwaith y bydd y dafarn yn eiddo i'r gymuned, bydd yr ymrwymiad i ddefnyddio'r dafarn ac i annog teulu a ffrindiau i'w defnyddio yn sylweddol. Mae hyn wedi profi'n wir mewn llawer o dafarndai sy'n eiddo i'r gymuned. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal ymgyrch farchnata/cysylltiadau cyhoeddus wedi'i hanelu at drigolion yr ardaloedd cyfagos ac at ymwelwyr tymhorol.

Bydd y tenant yn gyfrifol am ddenu busnes i'r dafarn, ond bydd yn ymwybodol o'r angen am ddarpariaeth gyson a dibynadwy, prisiau cystadleuol a bwyd wedi'i baratoi gyda chynhwysion lleol a ffres.

**Nid Yw'r Busnes yn Hyfyw**
Drwy fod wedi dewis y model tenantiaeth, rydym yn credu fod hyn yn rhoi'r siawns uchaf o'r busnes yn llwyddo. Mi fydd o fantais i'r tenant i uchafu potensial y busnes a gwneud elw.

Os nad yw'r busnes, er gwaethaf bod â chynllun busnes cadarn, marchnata egnïol a pharhaus, a chefnogaeth yr aelodau a chwsmeriaid eraill, yn datblygu fel y rhagwelwyd, yna byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoli ystyried cau'r dafarn, gwerthu'r asedau ac ad-dalu'r buddsoddwyr gwreiddiol, gydag unrhyw asedau gweddilliol i'w defnyddio er budd y gymuned. Mae'n amlwg nad dyma'r canlyniad y byddem yn dymuno ei weld, ac nid yw'n debygol yn ein barn ni, ond dylai'r camau posibl hyn roi rhywfaint o sicrwydd i fuddsoddwyr y gallant, pe bai'r fenter yn aflwyddiannus, adennill rhywfaint neu'r cyfan o'u buddsoddiad.

## 10. Casgliadau

Mae cymuned Llanfrothen a'r rhanddeiliaid yn llwyr gefnogol i'r cynnig i brynu'r prydles, a datblygu'r Ring fel menter gymunedol. Mae awydd a dymuniad i sicrhau fod y Ring yn cael ei berchnogi yn lleol ac yn gweithredu fel canolfan a chanolbwynt gymdeithasol bwysig.

Bydd y prosiect yn adfywio'r ardal, gan greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli a bydd yn sicrhau cyfleusterau hanfodol i gymuned wledig. Mae llawer o dystiolaeth i gefnogi'r angen am gyfleusterau yn yr ardal i gefnogi pobl ac helpu i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol ac unigrwydd.

Bydd gweithio gyda chyfleusterau, sefydliadau, cymdeithasau a busnesau lleol eraill yn bwysig, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial i bawb. Mae'r dyhead y bydd y Ring yn hunangynhaliol yn realistig, ar yr amod bod yr enw da a'r sylfaen cwsmeriaid gadarn hanesyddol yn cael ei ail sefydlu. Yn y tymor hir byddwn yn gobeithio denu buddsoddiad grantiau i ehangu'r adeilad ac i sicrhau adeilad hygyrch, sy'n amgylcheddol effeithlon a chynaliadwy, bydd hyn yn lleihau costau rhedeg.

Ar gyfer rhediad y dafarn, mae'r model tenantiaeth yn cynnig opsiwn gadarn, gyda llai o risgiau. Mae modelau eraill hefyd sydd yn opsiynau cadarn. Bydd denu tenant addas yn ddibynnol ar broses hysbysebu, dewis a dethol ffurfiol, gyda'r cytundeb dilynol yn cael ei ffurfio drwy gymorth arbenigol a chyfreithiol.

Mae'r Fenter yn hyderus – cyhyd â bod y gymuned, y cyfranddalwyr a'r rhanddeiliaid yn parhau i gefnogi, a chyhyd ag y gall y prosiect ddarparu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen i safon sy'n bodloni disgwyliadau'r gymuned – y bydd y Ring yn ased busnes a chymdeithasol llewyrchus. Ased fydd yn cynnig croeso cynnes a chynhwysol i bawb bob amser, ac yn bennaf oll ased yn ymwneud â gwerth a gwerthfawrogiad o'r iaith Gymraeg.

## 11. Atodiadau

A – Rhagolwg Ariannol

B – Arolwg Cyflwr Pensaerniaeth DB3 Architects

C – Adroddiad Arolwg North Wales Surveyors